Docusign Envelope ID: 5DFEA56B-D8B8-4949-B5AC-6E7FD00151C4

# GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN (GWAHARDD STOPIO Y TU ALLAN I YSGOLION) (RHYDAMAN) 2025

---

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin ('y Cyngor'), trwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1) i 2(3) a 4(2), a Rhan IV o Atodlen 9 i, Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984"), fel y'i diwygiwyd, a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, trwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

## RHAN I
## CYFEIRIADAU A DEHONGLIAD

1. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar y Nawfed dydd o Fai Dwy Fil a Dau Ddeg Pump a gellir cyfeirio ato fel "Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gwahardd Stopio y Tu Allan i Ysgolion) (Rhydaman) 2025".

2. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn ei gwneud yn ofynnol fel arall, yr ystyr a bennir iddynt trwy hyn sydd gan yr ymadroddion canlynol:

   Mae i "**Ambiwlans**" yr un ystyr ag sydd iddo yn Neddf Trethu a Chofrestru Cerbydau 1994.

   Ystyr "**Cerbyd**" yw cerbyd modur ac mae i "cerbyd modur" yr un ystyr ag yn Adran 136 o Ddeddf 1984.

   Bydd "**Cwnstabl yn ei Lifrai**" yn cynnwys swyddog gorfodi sifil.

   Ystyr "**Deddfiad**" yw unrhyw ddeddfiad (boed yn gyhoeddus, yn gyffredinol neu'n lleol) ac mae'n cynnwys unrhyw orchymyn, is-ddeddf, rheol, rheoliad, cynllun neu offeryn arall sydd mewn grym yn rhinwedd Deddfiad, a dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw Ddeddfiad fel cyfeiriad at y Deddfiad hwnnw fel y cafodd ei ddiwygio, ei gymhwyso, ei gydgrynhoi, neu ei ailddeddfu gan unrhyw Ddeddfiad dilynol, neu sydd

Docusign Envelope ID: 5DFEA56B-D8B8-4949-B5AC-6E7FD00151C4

mewn grym yn rhinwedd hynny.

Ystyr "**Hysbysiad Tâl Cosb**" yw hysbysiad a roddir neu a gyflwynir gan Swyddog Gorfodi Sifil neu drwy'r post, yn unol â darpariaethau Adran 78 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 a Rheoliadau 9 a 10 o Reoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.

Ystyr "**Perchennog**", mewn perthynas â Cherbyd, yw'r unigolyn sy'n cadw'r Cerbyd ac wrth benderfynu perchennog unrhyw gerbyd ar unrhyw adeg, cymerir mai'r perchennog oedd yr unigolyn yr oedd y Cerbyd wedi ei gofrestru yn ei enw, ar yr adeg honno, o dan Ddeddf Trethu a Chofrestru Cerbydau 1994.

Mae i "**Rhwydwaith Cyfathrebu Electronig**" yr un ystyr ag sydd iddo yn Neddf Cyfathrebu 2003.

Ystyr "**Swyddog Gorfodi Sifil**" yw person, fel y'i diffinnir yn Adran 76 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004, a awdurdodir gan neu ar ran y Cyngor i gymryd camau gorfodi o ran tramgwyddau traffig ffyrdd, fel y'u diffinnir yn Adran 73 o'r Ddeddf dan sylw.

Ystyr "**Tâl Cosb**" a "**Tâl Cosb Gostyngol**" yw tâl sydd wedi'i bennu gan y Cyngor yn unol â darpariaethau Atodlen 9 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 a hynny gyda sêl bendith Gweinidogion Cymru, y mae'n rhaid ei dalu i'r Cyngor cyn pen 28 diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad Tâl Cosb, neu:

(a) 14 diwrnod, yn achos Tâl Cosb Gostyngol lle caiff yr Hysbysiad Tâl Cosb ei gyflwyno gan Swyddog Gorfodi Sifil; neu

(b) 21 diwrnod, yn achos Tâl Cosb Gostyngol lle mae'r Hysbysiad Tâl Cosb yn cael ei gyflwyno drwy'r post.

3. Oni bai lle nodir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen rifedig yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Docusign Envelope ID: 5DFEA56B-D8B8-4949-B5AC-6E7FD00151C4

4. Bydd y gwaharddiadau a bennir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegu at unrhyw gyfyngiad, gwaharddiad neu ofyniad a bennwyd gan unrhyw reoliadau neu orchmynion a wnaed dan Ddeddf 1984, neu y mae eu heffaith fel pe baent wedi eu gwneud dan Ddeddf 1984, neu a wnaed gan/dan unrhyw Ddeddfiad arall, ac nid yn amharu arnynt.

5. Ac eithrio lle nodir fel arall, bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at:

(a) y Gorchymyn hwn neu Orchymyn arall yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y Gorchymyn hwn neu'r cyfryw Orchymyn arall, fel y gallai'r cyfryw fod wedi ei addasu, ei ddiwygio neu ei ategu, neu fel y gallai hynny ddigwydd o bryd i'w gilydd;

(b) statud neu reoliad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y cyfryw statud neu'r cyfryw reoliad fel y gallai'r cyfryw fod wedi ei diwygio/ei ddiwygio neu ei hailddeddfu/ei ailddeddfu, neu fel y gallai hynny ddigwydd o bryd i'w gilydd.

6. Mae “Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Rhydaman) Gwahardd Stopio 2010” a “Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gwahardd Stopio y Tu Allan i Ysgolion) 2014”, trwy hyn, yn cael eu dirymu i'r graddau y maent yn ymwneud â'r cyfyngiadau a ddisgrifir yn fyr yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir yn fwy penodol ar y cynlluniau sy'n dwyn y rhifau cyfeirnod unigryw a bennir yng ngholofn 3 yr Atodlenni dywededig.

## RHAN II
## GWAHARDD STOPIO

7. Ac eithrio fel y nodir yn Erthygl 8 o'r Gorchymyn hwn, ni chaniateir i neb, heblaw ei fod dan gyfarwyddyd Cwnstabl yn ei Lifrai neu wedi cael caniatâd gan Gwnstabl yn ei Lifrai, achosi na chaniatáu i unrhyw Gerbyd stopio ar y darnau ffyrdd neu ar yr ochrau ffyrdd a nodir, ac am y cyfnodau a nodwyd, yn yr atodlenni ac ar y cynlluniau a atodwyd i'r Gorchymyn hwn.

Docusign Envelope ID: 5DFEA56B-D8B8-4949-B5AC-6E7FD00151C4

8. Ni chaiff dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn beri ei fod yn anghyfreithlon achosi neu ganiatáu i unrhyw Gerbyd stopio ar y darnau ffyrdd neu ar yr ochrau ffyrdd a nodir yn yr erthygl honno am gyhyd ag y gallai fod yn angenrheidiol i alluogi'r canlynol:

(a) os na ellir defnyddio'r Cerbyd yn gyfleus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, dylid ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithrediadau a ganlyn, sef:
   (i) gwneud gwaith adeiladu, diwydiannol, neu ddymchwel;
   (ii) gwaredu unrhyw rwystrau i draffig;
   (iii) cynnal a chadw, gwella neu ail-greu'r darnau ffyrdd neu'r ochrau ffyrdd dan sylw; a
   (iv) gosod, codi, newid, neu atgyweirio yn neu ar dir ger y darnau neu'r ochrau ffyrdd dan sylw, unrhyw garthffos neu unrhyw brif gyflenwad, pibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr, neu drydan, neu unrhyw Rwydwaith Cyfathrebu Electronig;

(b) os na ellir defnyddio'r Cerbyd yn gyfleus at ddibenion o'r fath ar unrhyw ffordd arall, er mwyn ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaeth gan awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(c) defnyddio'r Cerbyd at ddibenion brigâd dân, Ambiwlans neu'r heddlu;

(d) mewn unrhyw achos pan fo'r person sy'n rheoli'r Cerbyd:
   (i) yn gorfod stopio yn ôl y gyfraith;
   (ii) yn gorfod stopio er mwyn atal damwain, neu
   (iii) yn cael ei atal rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth;

(e) y modd arferol o gynnal priodas neu i ffurfio rhes o gynhebryngwyr mewn angladd.

Docusign Envelope ID: 5DFEA56B-D8B8-4949-B5AC-6E7FD00151C4

## RHAN III

## MYND YN GROES I'R GORCHYMYN

9. Os yw Cerbyd wedi stopio ar unrhyw ddarn ffordd neu ochr ffordd yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn, bydd Tâl Cosb yn daladwy.

10. Yn achos Cerbyd y mae Tâl Cosb yn daladwy mewn perthynas ag ef, yna gellir rhoi Hysbysiad Tâl Cosb sy'n dangos y wybodaeth sy'n ofynnol yn unol ag Atodlen 1 o Reoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013") yn unol â Rheoliadau 9 a 10 o'r Rheoliadau 2013 hynny.

11. Yn achos Hysbysiad Tâl Cosb a osodwyd ar Gerbyd yn unol â Rheoliad 9 o Reoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013, ni chaniateir i neb ei symud nac ymyrryd ag ef ac eithrio gan y canlynol neu â'u hawdurdod:

(a) perchennog y Cerbyd neu rywun sydd â gofal y Cerbyd; neu

(b) yr awdurdod gorfodi.

12. Mae'n rhaid i Berchennog Cerbyd y mae'r Tâl Cosb wedi ei gyflwyno mewn perthynas ag ef dalu'r Tâl Cosb i'r Cyngor:

(a) naill ai drwy siec neu archeb bost, a gaiff ei dosbarthu neu ei hanfon drwy'r post er mwyn cyrraedd Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Technegol y Cyngor cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhoi'r Tâl Cosb; neu

(b) yn bersonol drwy siec, archeb bost, arian parod, carden gredyd neu garden ddebyd yn unrhyw un o swyddfeydd y Cyngor sy'n derbyn taliadau o'r fath; neu

(c) fel y dangosir ar yr Hysbysiad Tâl Cosb gan wneud hynny heb fod yn hwyrach na'r hyn a enwyd uchod.

13. Os telir y Tâl Cosb a roddir yn unol â Rheoliad 9 o Reoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013 cyn pen 14 diwrnod, sy'n dechrau ar ddyddiad yr Hysbysiad Tâl Cosb, bydd swm y Tâl Cosb yn cael ei leihau'n unol â'r gyfran benodedig.

Docusign Envelope ID: 5DFEA56B-D8B8-4949-B5AC-6E7FD00151C4

14. Os telir y Tâl Cosb a roddir yn unol â Rheoliad 10 o Reoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013 cyn pen 21 diwrnod, sy'n dechrau ar ddyddiad yr Hysbysiad Tâl Cosb, bydd swm y Tâl Cosb yn cael ei leihau'n unol â'r gyfran benodedig.

15. Os na fydd y Perchennog yn talu'r Tâl Cosb cyn pen cyfnod o 28 diwrnod, gan ddechrau ar ddyddiad yr Hysbysiad Tâl Cosb, gellir cyflwyno hysbysiad i'r Perchennog (y tybir ei fod yn cynnwys Hysbysiad Tâl Cosb a roddir o dan Reoliad 10 o Reoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013) ac os na thelir y tâl cyn pen 28 diwrnod arall, gellir ei gynyddu hanner cant y cant ar ôl cyflwyno Tystysgrif Tâl yn unol â darpariaethau Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.

16. Gall parhau i fethu talu roi bod i ddyfarniad yn y Llys Sirol yn erbyn y Perchennog er mwyn galluogi'r Cyngor i adennill y taliadau sy'n ddyledus.

19091

Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN )
**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** )
ar y ddogfen hon )
ar yr Wythfed dydd ar Hugain )
o Ebrill, Dwy Fil a Dau Ddeg Pump )

Ger fy mron i,

Signed by:
Steven P Murphy
6947BF055CF64B2...

.................................................................................................................................

**Steven P Murphy**
**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**

Docusign Envelope ID: 5DFEA56B-D8B8-4949-B5AC-6E7FD00151C4

## ATODLEN 1

**GWAHARDD STOPIO (Marciau 'Ysgol - Cadwch yn Glir')**
**rhwng 8.00a.m. a 5.00p.m. ar unrhyw ddydd**
**ac eithrio dydd Sadwrn a dydd Sul**

| 1<br>Ardal | 2<br>Enw/Disgrifiad o'r Ffordd | 3<br>Cyfeirnod Map |
|---|---|---|
| Rhydaman | Ffordd Walter | DK167 |
| Rhydaman | Heol yr Orsaf | DH167 |
| Rhydaman | Stryd yr Eglwys | DI167 a DI168 |
| Rhydaman | Stryd Fawr | DI169 a DJ169 |
| Rhydaman | Ffordd Villiers | DH171 |

## ATODLEN 2

**DIRYMU'R GWAHARDDIAD PRESENNOL AR STOPIO**
**(Marciau 'Ysgol - Cadwch yn Glir')**
**rhwng 8.00a.m. a 9.00p.m a rhwng 3.00p.m. a 4.00p.m.**
**ar unrhyw ddydd ac eithrio dydd Sadwrn a dydd Sul**

| 1<br>Ardal | 2<br>Enw/Disgrifiad o'r Ffordd | 3<br>Cyfeirnod Map |
|---|---|---|
| Rhydaman | Ffordd Villiers | DH171 |


Docusign Envelope ID: 5DFEA56B-D8B8-4949-B5AC-6E7FD00151C4

# ATODLEN 3

## DIRYMU'R GWAHARDDIAD PRESENNOL AR STOPIO
## (Marciau 'Ysgol - Cadwch yn Glir')
## rhwng 8.00a.m. a 5.00p.m. ar unrhyw ddydd
## ac eithrio dydd Sadwrn a dydd Sul

| 1<br>Ardal | 2<br>Enw/Disgrifiad o'r Ffordd | 3<br>Cyfeirnod Map |
|---|---|---|
| Rhydaman | Ffordd Walter | DK167 |
| Rhydaman | Stryd yr Eglwys | DI167 a DI168 |

Docusign Envelope ID: 5DFEA56B-D8B8-4949-B5AC-6E7FD00151C4




Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cyngor Sir Gâr**
**Carmarthenshire County Council**
Parc Myrddin,
Waun Dew / Richmond Terrace,
Caerfyrddin / Carmarthen
SA31 1HQ

| | |
|---|---|
| Cyf. Teil / Tile ref. | DH167 |
| Statws / Status | CADARNHAWYD CONFIRMED |
| Rhif adolygiad / Revision no. | 1 |
| Dyddiad gweithredol / Operative date | |
| Graddfa / Scale | 1 : 1250 |

DH166
DI167

**CYFEIRIADAU TEILS CYFAGOS**
**ADJACENT TILE REFERENCES**

## GORCHYMYN / ORDER:

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gwahardd stopio y tu allan i ysgolion) (Rhydaman) 2025

The County of Carmarthenshire (Prohibition of stopping outside schools) (Ammanford) Order 2025


(c) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000810849/ (c) Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000810849

**Allwedd i'r mathau o gyfyngiadau a ddangosir \ Key to restriction types displayed**

**Dim stopio Llun-Gwe 8am-5pm/No Stopping Mon-Fri 8am-5pm**

N
W E
S

Docusign Envelope ID: 5DFEA56B-D8B8-4949-B5AC-6E7FD00151C4




| | |
|---|---|
| Cyf. Teil / Tile ref. | DH171 |
| Statws / Status | CADARNHAWYD CONFIRMED |
| Rhif adolygiad / Revision no. | 1 |
| Dyddiad gweithredol / Operative date | |
| Graddfa / Scale | 1 : 1250 |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cyngor Sir Gâr**
**Carmarthenshire County Council**
Parc Myrddin,
Waun Dew / Richmond Terrace,
Caerfyrddin / Carmarthen
SA31 1HQ

DI171

**CYFEIRIADAU TEILS CYFAGOS**
**ADJACENT TILE REFERENCES**

**GORCHYMYN / ORDER:**

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gwahardd stopio y tu allan i ysgolion) (Rhydaman) 2025

The County of Carmarthenshire (Prohibition of stopping outside schools) (Ammanford) Order 2025


(c) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000810849/ (c) Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000810849

**Allwedd i'r mathau o gyfyngiadau a ddangosir \ Key to restriction types displayed**

**Dim stopio Llun-Gwe 8am-5pm/No Stopping Mon-Fri 8am-5pm**

N
W E
S

Docusign Envelope ID: 5DFEA56B-D8B8-4949-B5AC-6E7FD00151C4




Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
Parc Myrddin,
Waun Dew / Richmond Terrace,
Caerfyrddin / Carmarthen
SA31 1HQ

| | |
|---|---|
| Cyf. Teil / Tile ref. | DI167 |
| Statws / Status | CADARNHAWYD CONFIRMED |
| Rhif adolygiad / Revision no. | 1 |
| Dyddiad gweithredol / Operative date | |
| Graddfa / Scale | 1 : 1250 |

DI166
DH167
DJ167
DI168

CYFEIRIADAU TEILS CYFAGOS
ADJACENT TILE REFERENCES

## GORCHYMYN / ORDER:

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gwahardd stopio y tu allan i ysgolion) (Rhydaman) 2025

The County of Carmarthenshire (Prohibition of stopping outside schools) (Ammanford) Order 2025


(c) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000810849/ (c) Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000810849

**Allwedd i'r mathau o gyfyngiadau a ddangosir \ Key to restriction types displayed**

Dim stopio Llun-Gwe 8am-5pm/No Stopping Mon-Fri 8am-5pm

N W E S

Docusign Envelope ID: 5DFEA56B-D8B8-4949-B5AC-6E7FD00151C4




| | |
|---|---|
| Cyf. Teil / Tile ref. | DI168 |
| Statws / Status | CADARNHAWYD CONFIRMED |
| Rhif adolygiad / Revision no. | 1 |
| Dyddiad gweithredol / Operative date | |
| Graddfa / Scale | 1 : 1250 |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cyngor Sir Gâr**
**Carmarthenshire County Council**
Parc Myrddin,
Waun Dew / Richmond Terrace,
Caerfyrddin / Carmarthen
SA31 1HQ

DI167
DJ168
DI169

**CYFEIRIADAU TEILS CYFAGOS**
**ADJACENT TILE REFERENCES**

## GORCHYMYN / ORDER:

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gwahardd stopio y tu allan i ysgolion) (Rhydaman) 2025

The County of Carmarthenshire (Prohibition of stopping outside schools) (Ammanford) Order 2025


(c) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000810849/ (c) Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000810849

**Allwedd i'r mathau o gyfyngiadau a ddangosir \ Key to restriction types displayed**

**Dim stopio Llun-Gwe 8am-5pm/No Stopping Mon-Fri 8am-5pm**

N
W E
S

Docusign Envelope ID: 5DFEA56B-D8B8-4949-B5AC-6E7FD00151C4




| | |
|---|---|
| **Cyngor Sir Gâr** | |
| **Carmarthenshire County Council** | |
| Parc Myrddin, | |
| Waun Dew / Richmond Terrace, | |
| Caerfyrddin / Carmarthen | |
| SA31 1HQ | |

| | |
|---|---|
| Cyf. Teil / Tile ref. | DI169 |
| Statws / Status | CADARNHAWYD CONFIRMED |
| Rhif adolygiad / Revision no. | 1 |
| Dyddiad gweithredol / Operative date | |
| Graddfa / Scale | 1 : 1250 |

DI168
DH169 DJ169
DI170

**CYFEIRIADAU TEILS CYFAGOS**
**ADJACENT TILE REFERENCES**

**GORCHYMYN / ORDER:**

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gwahardd stopio y tu allan i ysgolion) (Rhydaman) 2025

The County of Carmarthenshire (Prohibition of stopping outside schools) (Ammanford) Order 2025


(c) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000810849/ (c) Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000810849

**Allwedd i'r mathau o gyfyngiadau a ddangosir \ Key to restriction types displayed**

**Dim stopio Llun-Gwe 8am-5pm/No Stopping Mon-Fri 8am-5pm**

N W E S

Docusign Envelope ID: 5DFEA56B-D8B8-4949-B5AC-6E7FD00151C4




Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cyngor Sir Gâr**
**Carmarthenshire County Council**
Parc Myrddin,
Waun Dew / Richmond Terrace,
Caerfyrddin / Carmarthen
SA31 1HQ

| | |
|---|---|
| Cyf. Teil / Tile ref. | DJ169 |
| Statws / Status | CADARNHAWYD CONFIRMED |
| Rhif adolygiad / Revision no. | 1 |
| Dyddiad gweithredol / Operative date | |
| Graddfa / Scale | 1 : 1250 |

DJ168
DI169
DJ170

**CYFEIRIADAU TEILS CYFAGOS**
**ADJACENT TILE REFERENCES**

**GORCHYMYN / ORDER:**

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gwahardd stopio y tu allan i ysgolion) (Rhydaman) 2025

The County of Carmarthenshire (Prohibition of stopping outside schools) (Ammanford) Order 2025

(c) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000810849/ (c) Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000810849

**Allwedd i'r mathau o gyfyngiadau a ddangosir \ Key to restriction types displayed**

**Dim stopio Llun-Gwe 8am-5pm/No Stopping Mon-Fri 8am-5pm**

Docusign Envelope ID: 5DFEA56B-D8B8-4949-B5AC-6E7FD00151C4




Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cyngor Sir Gâr**
**Carmarthenshire County Council**
Parc Myrddin,
Waun Dew / Richmond Terrace,
Caerfyrddin / Carmarthen
SA31 1HQ

| | |
|---|---|
| Cyf. Teil / Tile ref. | DK167 |
| Statws / Status | CADARNHAWYD CONFIRMED |
| Rhif adolygiad / Revision no. | 1 |
| Dyddiad gweithredol / Operative date | |
| Graddfa / Scale | 1 : 1250 |

DJ167
DL167
DK168

**CYFEIRIADAU TEILS CYFAGOS**
**ADJACENT TILE REFERENCES**

**GORCHYMYN / ORDER:**

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gwahardd stopio y tu allan i ysgolion) (Rhydaman) 2025

The County of Carmarthenshire (Prohibition of stopping outside schools) (Ammanford) Order 2025

(c) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000810849/ (c) Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000810849

**Allwedd i'r mathau o gyfyngiadau a ddangosir \ Key to restriction types displayed**

**Dim stopio Llun-Gwe 8am-5pm/No Stopping Mon-Fri 8am-5pm**

N
W E
S